COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Polisi Gwirfoddolwyr


Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Rhif Ffôn: 01267 226 440
Rhif Ffacs: 01267 226 448
E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk

# Cynnwys

Rhagair y Comisiynydd ........................................................ 2
1. Cyflwyniad.................................................................... 3
2. Crynodeb o Gynlluniau Gwirfoddoli CHTh .................................. 3
3. Rheoli’r Cynlluniau ........................................................ 4
4. Cymhwysedd .................................................................. 4
5. Recriwtio a cheisiadau ...................................................... 4
6. Fetio ........................................................................ 5
7. Hyfforddi .................................................................... 5
8. Cyfnod prawf ac adolygiadau .................................................. 5
9. Rolau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr ........................................ 6
10. Treuliau .................................................................... 6
11. Yswiriant ................................................................... 7
12. Iechyd a Diogelwch .......................................................... 7
13. Terfynu penodiad ............................................................ 7
14. Cyfrinachedd ................................................................ 8
15. Cael gwared ar ddogfennaeth .................................................. 8
16. Canllawiau Cyhoeddusrwydd .................................................. 8
17. Datrys anghydfodau .......................................................... 8
18. Cwynion yn erbyn yr Heddlu .................................................. 9
19. Ardal Gwirfoddolwyr ar Wefan y Comisiynydd .................................. 9

## Rhagair y Comisiynydd

*Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi gyd am wirfoddoli. Gwerthfawrogir eich ymroddiad a'ch brwdfrydedd tuag at y gwaith hwn, sy'n werthfawr iawn i'm gwaith i fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed a Phowys.*

*Er bod y rhan fwyaf o'r Polisi hwn yn unol ag egwyddorion cyffredinol y polisi gwirfoddoli a fabwysiadwyd eisoes, mae un prif newid i'r ffordd rwyf eisiau ymdrin â gwirfoddoli: rwyf wedi dileu'r cyfnod pennaf ar gyfer gwirfoddolwyr. Rwy'n teimlo bod profiad ein gwirfoddolwyr sydd wedi gwirfoddoli'n hirach yn amhrisiadwy ar gyfer y cynlluniau rydych chi'n gysylltiedig â nhw.*

*Diolch eto,*



## 1. Cyflwyniad

Mae hwn yn Bolisi trosfwaol sy’n cwmpasu tri chynllun gwirfoddoli CHTh. Mae’n nodi hawliau ac egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh).

Mae manylion mwy manwl am rolau penodol gwirfoddolwyr ar gael yn y llawlyfrau cynllun unigol. Gellir cael mynediad at rain ar wefan CHTh, neu drwy wneud cais i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).

## 2. Crynodeb o Gynlluniau Gwirfoddoli CHTh

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa:

- Mae Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa’n ymweld â dalfeydd ledled ardal Dyfed-Powys.
- Maen nhw’n darparu gwiriad annibynnol ar les y rhai a gedwir yn y ddalfa, a’r amodau o dan ba rai y maent yn cael eu cadw.
- Mae gwaith Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa’n cynnig amddiffyniad i garcharorion a thryloywder o ran prosesau cadw.
- Mae materion a godir gan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa’n cael eu hystyried gan arolygwyr heddlu ac mae diweddariadau’n cael eu rhoi i’r CHTh.

Cynllun Lles Anifeiliaid:

- Mae Ymwelwyr Lleyg er Lles Anifeiliaid yn ymweld â thrinwyr cŵn a’u cŵn heddlu ledled ardal Dyfed-Powys.
- Maen nhw’n darparu gwiriad annibynnol ar les cŵn yr heddlu, a’r amodau o dan ba rai y maen nhw’n cael eu cadw, eu hyfforddi a’u cludo: Rhaid i’r modd y maen nhw’n cael eu trin fod yn effeithiol, yn ddyngarol, yn foesegol ac yn dryloyw.
- Mae materion a godir gan y gwirfoddolwyr yn cael eu hystyried gan arolygwyr heddlu ac mae diweddariadau’n cael eu rhoi i’r CHTh.

Y Panel Sicrhau Ansawdd:

- Gofynnir i’r Panel graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â’r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys.
- Bydd y Panel yn craffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, er enghraifft, achosion cwyn, achosion Stopio a Chwilio, Defnydd o Rym, achosion Troseddau Casineb a'r ffordd y mae'r heddlu'n trin galwadau a dderbynnir gan Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu h.y. galwadau 101 a 999.
- Mae materion a godir gan y Panel yn cael eu hystyried gan Heddlu Dyfed-Powys a rhoddir diweddariadau i’r CHTh. Gwneir gwelliannau i arferion busnes a gwasanaeth cwsmeriaid yn ôl yr angen.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau gwirfoddoli uchod ar wefan y CHTh, neu drwy wneud cais i SCHTh.

## 3. Rheoli'r Cynlluniau

Mae'r CHTh yn cydnabod hawl gwirfoddolwyr i gael cymorth digonol yn eu rôl, a bydd yn sicrhau fod adnoddau addas ar gael i redeg y cynlluniau gwirfoddoli'n effeithiol.

Mae'r cynlluniau'n cael eu rheoli o fewn Swyddfa CHTh, gydag un pwynt cyswllt sengl ar gyfer gwirfoddolwyr.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael gwybod am y manylion cyswllt wrth ymuno â'r cynllun, a byddant yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau.

## 4. Cymhwysedd

Rhaid i wirfoddolwyr fodloni nifer o feini prawf er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynlluniau CHTh:

- Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn;
- Rhaid byw, gweithio, neu astudio yn ardal Comisiynydd Dyfed-Powys;
- Rhaid eu bod wedi byw yn y DU am 3 blynedd o leiaf cyn gwneud cais;
- Rhaid bod yn annibynnol o'r Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol, h.y. ni fydd SCHTh yn penodi swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, staff yr heddlu, aelodau o SCHTh, cwnstabliaid gwirfoddol, nac unrhyw un sydd â chysylltiad uniongyrchol yn y system cyfiawnder troseddol, megis cyfreithwyr neu swyddogion prawf;
- Ni chaiff gwirfoddolwyr fod yn aelod o fwy nag un o gynlluniau gwirfoddol SCHTh ar unrhyw adeg; a
- Y ffactor gor-redol wrth ystyried ceisiadau fydd atal gwrthdaro buddiannau posibl ar gyfer unigolion, a chynnal annibyniaeth a chywirdeb y cynlluniau gwirfoddoli. Fodd bynnag, bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei deilyngdod.

Yn ogystal, mae meini prawf cymhwysedd penodol i'r rôl ar gyfer pob un o'r cynlluniau. Ceir rhagor o wybodaeth yn llawlyfrau'r cynlluniau.

## 5. Recriwtio a cheisiadau

Bydd cyfleoedd gwirfoddoli'n cael eu hyrwyddo'n eang drwy ffyrdd sy'n defnyddio dulliau sy'n sicrhau hygyrchedd ar gyfer holl aelodau'r gymuned. Croesewir ceisiadau gan bob unigolyn o bob rhan o'r gymuned er mwyn adlewyrchu amrywiaeth mewn perthynas â hil, anabledd, rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a ffydd, oed a'r iaith Gymraeg.

Mae'r CHTh wedi'i ymrwymo'n llawn i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl feysydd gwaith. Mae gennym lawer i'w ddysgu ac elwa wrth safbwyntiau a diwylliannau amrywiol. Mae'r CHTh wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal cynlluniau gwirfoddoli lle y mae cefndiroedd, galluoedd a syniadau gwahanol yn cael eu meithrin a'u gwerthfawrogi.

Bydd pob gwirfoddolwr â diddordeb yn derbyn pecyn cais ar gyfer ei gynllun o ddewis. Mae'r pecyn yn cynnwys llawlyfr cynllun, disgrifiad rôl a manyleb person, ffurflen gais, ac arolwg monitro cyfleoedd cyfartal.

Ar ôl derbyn cais, bydd y gwirfoddolwr yn cael ei wahodd i fynychu cyfweliad anffurfiol gyda chynrychiolwyr CHTh. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y tîm cyfweld ac yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig i'r gwirfoddolwr. Rhoddir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gais.

Gofynnwn yn garedig i bob gwirfoddolwr geisio ymrwymo i'r cynlluniau am flwyddyn o leiaf gan fod angen cliriad fetio a hyfforddiant ar bob gwirfoddolwr.

## 6. Fetio

Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Arolwg Fetio ar gyfer unigolion nad ydynt yn bersonél heddlu. Dim ond y rhai sy'n derbyn cliriad fetio fydd yn cael eu gwahodd i ymuno â chynlluniau gwirfoddoli CHTh.

Os caniateir cliriad fetio, bydd yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Ar ôl tair blynedd, bydd Swyddog Fetio Heddlu Dyfed-Powys yn ail ystyried fetio. Ni ddylai gwirfoddolwyr ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau gwirfoddoli os yw eu cliriad fetio'n dod i ben ac mae oedi'n digwydd cyn adnewyddu.

## 7. Hyfforddi

Mae anghenion hyfforddi'n amrywio o gynllun i gynllun, a darperir manylion yn llawlyfrau'r cynlluniau. Fodd bynnag, disgwylir y bydd pob gwirfoddolwr yn ymgymryd â diwrnod hyfforddi cychwynnol cyn cychwyn ar eu rolau, sy'n cynnwys hyfforddiant ar eu rôl benodol, iechyd a diogelwch, a diogelu data.

## 8. Cyfnod prawf

Ar ôl cwblhau hyfforddiant, disgwylir i wirfoddolwyr gwblhau cyfnod prawf o chwe mis. Yna, bydd penodiadau llwyddiannus yn cael eu cadarnhau yn amodol ar lynu'n foddhaol i ddarpariaethau'r cynllun. I gychwyn, gosodir penodiadau am dair blynedd.

Ar ôl hynny, bydd penodiadau'n cael eu hadolygu ac mae'n bosibl y bydd gwirfoddolwyr yn cael eu penodi am dair blynedd arall. Bydd hyn yn parhau ar sail dreigl, gydag adolygiadau'n digwydd bob tair blynedd.

Y prif ffactorau a fydd yn cael eu hystyried adeg pob adolygiad yw gallu a pharodrwydd parhaus gwirfoddolwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol, tra'n arddangos amhleidioldeb a gwrthrychedd bob tro.

Bydd y rhai sy'n cyflawni tymor o 6 blynedd yn derbyn anrheg fach gan y CHTh i gydnabod eu hamser fel gwirfoddolwr.

## 9. Rolau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr

Ceir manylion llawn am rolau gwirfoddoli penodol yn llawlyfrau'r cynlluniau.

Rhaid i wirfoddolwyr ymrwymo i ymgymryd â'u dyletswyddau gwirfoddoli. Deellir y bydd gan wirfoddolwyr ymrwymiadau allanol eraill, ac mae'r CHTh yn ystyriol o hyn. Fodd bynnag, pan mae gwirfoddolwr yn methu ag ymrwymo'n ddigonol i'r cynllun, gofynnir am esboniad. Lle nad oes rheswm da dros y diffyg ymrwymiad, ystyrir pa un ai a ddylai'r unigolyn hwnnw barhau yn ei rôl.

Bydd angen i wirfoddolwyr roi gwybod i'r SCHTh am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u gallu eu hunain i fodloni gofynion y cynllun, er enghraifft, newidiadau mewn amgylchiadau personol, neu gyfnodau lle nad ydynt ar gael i gyflawni eu dyletswyddau.

Hefyd, dylai gwirfoddolwyr hysbysu'r SCHTh os ydynt yn cael eu harestio neu eu cyhuddo o dramgwydd troseddol, neu'n destun ymchwiliad. Byddant yn cael eu hatal rhag cyflawni unrhyw ddyletswyddau gwirfoddoli pellach hyd nes y bydd canlyniad unrhyw weithdrefnau'n hysbys.

## 10. Treuliau

Telir costau teithio i bob gwirfoddolwr sy'n teithio ar fusnes mewn cysylltiad â'u rôl wirfoddol. Dim ond pris trafnidiaeth gyhoeddus neu filltiroedd car preifat ar y gyfradd gyfredol a osodir gan AHEM (£0.45 y filltir) fydd yn cael ei dalu. Wrth gyflwyno hawliadau milltiroedd, dylid cyflwyno derbynneb TAW ddilys.

Ni thelir ffioedd tacsi heblaw mewn amgylchiadau cyfiawnadwy penodol e.e. gwirfoddolwyr sydd angen trafnidiaeth hygyrch benodol.

Yn ogystal, mae hawl gan wirfoddolwyr i hawlio cost pryd bwyd (hyd at £7.50) wrth ymgymryd â dyletswyddau am gyfnod di-dor o 4 awr neu fwy; lle nad oes lluniaeth wedi'i ddarparu. Mae hyn yn cynnwys amser teithio. Wrth hawlio pryd bwyd, rhaid i wirfoddolwyr ddarparu derbynneb TAW dilys.

Os oes angen tocynnau trên ar wirfoddolwyr i fynychu cwrs / cynhadledd sy'n gysylltiedig â'u rôl y tu allan i Ddyfed-Powys, dylent gysylltu â'r SCHTh. Bydd SCHTh yn trefnu eu tocynnau ac yn talu amdanynt.

Yn yr un modd, os oes angen arhosiad dros nos wrth fynychu hyfforddiant y tu allan i Ddyfed-Powys, dylai gwirfoddolwyr gysylltu â'r SCHTh er mwyn trefnu hyn.

Rhaid cyflwyno treuliau ar y ffurflenni hawlio treuliau a ddarperir gan y SCHTh. Wrth gwblhau'r ffurflen, dylai gwirfoddolwyr roi gwybodaeth fanwl o ran milltiroedd, h.y. i'r filltir agosaf. Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau i SCHTh o fewn 6 mis ar ôl gwario.

Dylai gwirfoddolwyr sy’n derbyn unrhyw fath o fudd-daliadau hysbysu’r Adran Waith a Phensiynau, neu awdurdod perthnasol arall, am eu rôl fel gwirfoddolwr ar gyfer CHTh.

## 11. Yswiriant

Mae CHTh yn dal yr yswiriant atebolrwydd priodol ar gyfer gwirfoddolwyr i’w gwarantu wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau gwirfoddol. Nid yw hyn yn cynnwys yswiriant modur.

Cynghorir gwirfoddolwyr sy’n defnyddio’u cerbydau preifat eu hun wrth gyflawni eu rôl i wirio gyda’u cwmni yswiriant os ydynt wedi’u gwarantu i’r diben hwn ai peidio.

Ni fydd CHTh yn atebol ar gyfer lefel yswiriant modur annigonol unigolion.

## 12. Iechyd a Diogelwch

Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn cyngor iechyd a diogelwch sy’n berthnasol i’w rôl fel rhan o’u hyfforddiant.

Gofynnir i wirfoddolwyr gwblhau arolwg meddygol sy’n berthnasol i’w rôl, ac fe’u cynghorir i hysbysu’r SCHTh am unrhyw newidiadau i’w iechyd a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni’u rôl wirfoddol.

Mae gan bob cynllun Asesiad Risg sy’n manylu’r risgiau posibl. Gofynnir i bob gwirfoddolwr ymgyfarwyddo â chynnwys yr Asesiad Risg perthnasol, a chydymffurfio â’r mesurau rheoli a nodir ynddo.

## 13. Terfynu penodiad

Er bod y rolau’n gwbl wirfoddol, mae hawl gan y CHTh i derfynu penodiad unrhyw wirfoddolwr nad yw’n cyrraedd y safon ddisgwyliedig o ran ymddygiad.

Bydd gwirfoddolwyr yn arwyddo Cod Ymddygiad wrth ymuno â’r cynllun, a disgwylir iddynt lynu wrth y safonau a nodir yn y ddogfen honno. Os yw ymddygiad yn syrthio’n is na’r safon honno, bydd y CHTh yn ystyried pa un ai a ddylai’r unigolyn hwnnw barhau â’i rôl.

Dylai gwirfoddolwyr sy'n dymuno terfynu eu penodiad ysgrifennu at Weinyddwr y Cynllun, gan roi digon o rybudd lle bo'n bosibl.

## 14. Cyfrinachedd

Wrth gyflawni eu dyletswyddau, bydd gwirfoddolwyr yn derbyn llawer o wybodaeth gyfrinachol am faterion plismona.

Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant ynghylch diogelu data a chyfrinachedd. Gofynnir iddynt arwyddo cytundeb cyfrinachedd wrth ymuno â’r

cynllun gwirfoddol, a gofynnir iddynt arwyddo datganiad o gyfrinachedd wrth gyflawni eu dyletswyddau gwirfoddoli fel mater o drefn.

## 15. Cael gwared ar ddogfennaeth

Pan fydd gwirfoddolwr yn gadael cynllun, rhaid iddynt sicrhau eu bod nhw'n cael gwared ar yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'u rôl neu ei ddychwelyd i'r SCHTh.

Mae mynediad at ddogfennaeth yn amrywio o gynllun i gynllun. Pan mae gwirfoddolwyr yn cwrdd i graffu ar ddogfennau penodol, ni ddylid mynd â'r dogfennau hyn o'r cyfarfod neu i ffwrdd o safle'r heddlu.

Pan mae gwirfoddolwr yn gadael cynllun, rhaid iddynt ddychwelyd unrhyw fathodynnau adnabod i'r SCHTh.

## 16. Canllawiau Cyhoeddusrwydd

Mae'n ddymunol hyrwyddo amcanion cynlluniau gwirfoddoli CHTh i'r cyhoedd. Os yw gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â'r cyhoeddusrwydd hwn, rhaid iddynt gadw mewn cof mai pwrpas cyhoeddusrwydd yw hysbysu'r cyhoedd am y cynlluniau, ac nid tynnu sylw at unrhyw wybodaeth a geir wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Dylid cyfeirio unrhyw wahoddiad i siarad â'r wasg, neu grwpiau neu sefydliadau lleol, i'r SCHTh. Dylai gwirfoddolwyr gofio eu bod yn atebol i'r CHTh ac nid i'r wasg neu aelodau unigol o'r cyhoedd.

## 17. Datrys anghydfodau

Mae CHTh yn anelu at drin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson, ac yn ceisio sicrhau bod safbwyntiau gwirfoddolwyr yn cael eu clywed, eu nodi, ac yn derbyn sylw yn brydlon, ac mae'n anelu at ddatrysiad positif a chyfeillgar.

Gofynnwn yn garedig i bob gwirfoddolwr geisio ymrwymo i'r cynlluniau am flwyddyn o leiaf gan fod angen cliriad fetio a hyfforddiant ar bob gwirfoddolwr.

Os gwneir cwyn neu honiad yn erbyn gwirfoddolwr, neu mae rheswm dros amau ei fod wedi torri unrhyw ran o God Ymddygiad ei gynllun, cymerir y camau gweithredu canlynol. Bydd SCHTh yn gofyn am i'r gŵyn/honiad gael ei (g)wneud yn ysgrifenedig, os nad yw hyn wedi'i wneud yn barod. Ni chymerir camau gweithredu pellach oni bai y cyflwynir y gŵyn neu'r honiad yn ysgrifenedig.

Ar ôl derbyn y gŵyn neu'r honiad yn ysgrifenedig, bydd SCHTh yn rhoi gwybod i'r gwirfoddolwr am hyn ac am y cynnwys. Cynhelir trafodaeth rhwng y gwirfoddolwr ac aelod priodol o SCHTh i drafod natur y gŵyn. Gan ddibynnu ar natur y gŵyn, rhoddir cyfle i'r gwirfoddolwr ymateb i'r gŵyn/honiad yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Bydd SCHTh yn cynnal yr ymholiadau perthnasol gofynnol er mwyn pennu sylwedd y gŵyn neu'r honiad. Wrth wneud hynny, a gan ddibynnu ar natur y gŵyn, bydd SCHTh yn cysylltu ag unrhyw un o'r partïon canlynol, neu bob un ohonynt:

- Yr achwynydd
- Cyd-wirfoddolwyr
- Staff/Swyddogion yr Heddlu
- Unrhyw un arall sy'n medru darparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl cynnal yr ymholiadau gofynnol, bydd SCHTh yn paratoi adroddiad, gydag argymhellion, a fydd yn cael eu hystyried/cadarnhau gan y Pennaeth Staff. Bydd y gwirfoddolwr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.

Mae'r weinyddwr y cynllun yn gyfrifol am ymdrin â phob achwyniad a chwyn mewn perthynas â gwirfoddolwyr. Pe bai gwirfoddolwr yn dymuno achwyn am weinyddwr y cynllun, dylent gynghori Pennaeth Staff CHTh.

## 18. Cwynion yn erbyn yr Heddlu

Pan mae gwirfoddolwr yn mynegi pryder wrth y SCHTh am ymddygiad swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu wrth gyflawni ei rôl fel gwirfoddolwr, bydd gweinyddwr y cynllun yn codi'r mater â'r uwch swyddog perthnasol o fewn yr heddlu.

Pan mae gwirfoddolwr yn gwneud cwyn ffurfiol yn erbyn yr Heddlu, sy'n cael ei chofnodi fel cwyn, yn ei rôl fel gwirfoddolwr neu fel unigolyn preifat, rhaid hysbysu CHTh. Bydd y manylion llawn yn cael eu cyflwyno i'r Pennaeth Staff a fydd yn gwneud y penderfyniad cychwynnol o ran pa un ai a ddylid gwahardd y gwirfoddolwr er budd amhleidioldeb.

## 19. Diogelwch COVID-19

Disgwylir i bob gwirfoddolwr ddilyn y canllawiau COVID-19 ar y pryd, fel y cyhoeddir gan y Llywodraeth, Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh. Rhaid i ymwelwyr sy'n ymweld â Phencadlys yr Heddlu neu safleoedd Heddlu ddilyn y canllawiau o ran glanweithdra dwylo a gwisgo mygydau, a cheisio cadw pellter o 2 fedr os yn bosibl. Rhaid i bob gwirfoddolwr ddilyn canllawiau'r heddlu ynglŷn ag hunan-ynysu yn dilyn cyswllt ag achos positif hefyd. Rhaid i bob gwirfoddolwr roi gwybod i dîm COVID-19 yr heddlu os ydynt yn profi'n bositif ar gyfer COVID-19 ar ôl ymweld â safle'r heddlu er mwyn iddynt adnabod unrhyw unigolion a allai fod wedi bod mewn cysylltiad agos â chi. Bydd SCHTh yn diweddaru pob gwirfoddolwr ynglŷn â chanllawiau a chyngor diweddaraf yr heddlu o ran COVID-19.